

**Dyddiad cyhoeddi:** 22 Rhagfyr 2020

## **Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

### **Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

*"Gaf i ofyn am gyflwyniad tendr y cynigydd a gafodd y sgôr uchaf (gan eithrio unrhyw wybodaeth a data personol sy'n fasnachol sensitif) ar gyfer y tendr canlynol:  
Ymgynghoriaeth dylunio ar gyfer swyddfeydd a chyflenwi dodrefn a gwasanaethau cysylltiedig"*

### **Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Nid yw Trafnidiaeth Cymru yn gallu darparu'r wybodaeth hon. Mae cyflwyniad tendr yn cael ei ystyried yn fasnachol sensitif yn ei gyfanrwydd; felly ni ellir darparu'r wybodaeth hon hyd yn oed mewn fformat wedi'i olygu.

Mae'r eithriadau canlynol i'r hawl mynediad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) yn berthnasol: S43(1) ac S43(2) (Niwed i Fuddiannau Masnachol). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a fyddai'n debygol o effeithio ar fantais gystadleuol y cyflenwr. Er ein bod yn cydnabod bod llawer o ddiddordeb yn y digwyddiadau tendro sy'n cael eu cynnal, rydym ni'n credu y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn niweidio ein gallu i ymgysylltu â chyflenwyr yn y dyfodol.

Mae defnyddio'r eithriad hwn yn amodol ar asesiad o fudd y cyhoedd mewn perthynas â datgelu'r wybodaeth dan sylw. Yn yr achos hwn, mae ffactorau o blaid datgelu, sef y niwed posib i weithrediad effeithiol y broses fidio yn drech na budd cyffredinol y cyhoedd o ran tryloywder a bod yn agored. Byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o amharu ar allu Trafnidiaeth Cymru i gael y gwerth gorau o'i brosesau caffael, gan arwain at gynnydd yn y gost i'r cyhoedd, a gallu'r cyflenwr i gystadlu ar yr un lefel â chwmnïau eraill. Mae nifer o gwmnïau'n gallu gwneud cais am gontractau o'r fath ac mae'n debygol y bydd y cyflenwr yn cystadlu am gontractau tebyg yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, rydym ni o'r farn mai'r budd i'r cyhoedd yw cael y gwerth gorau o'r farchnad, gan barchu'r ymrwymïadau ymhlyg a phenodol o ran cyfrinachedd sy'n cael eu creu drwy'r broses gaffael.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod yr angen i awdurdodau cyhoeddus fod yn agored ac yn dryloyw, ond yn yr achos hwn gan y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o amharu ar allu Trafnidiaeth Cymru i gael y gwerth gorau o'i broses gaffael a gallu'r cyflenwr i gystadlu â chwmnïau eraill, rydym ni'n credu bod budd y cyhoedd yn ffafrio defnyddio'r eithriad.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**